



## **RHYBUDD CADARNHAU GORCHYMYN DIDDYMU LLWYBR CYHOEDDUS**

### **Gorchymyn Diddymu Llwybr Cyhoeddus (Llwybr Cyhoeddus, Llys Bedydd Rhif 10 (Rhan) yng Nghymuned De Maelor) Bwrdeistref Sirol Wreccsam 2015**

Ar 29/4/15 cadarnhaodd Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam y Gorchymyn uchod a wnaed dan Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Effaith y Gorchymyn fel y cadarnhawyd yw diddymu'r llwybr cyhoeddus a ddangosir gan linell drom barhaus fel a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Rhybudd hwn. Daw'r Gorchymyn i rym 7 diwrnod o ddyddiad y cadarnhad.

Mae copi o'r Gorchymyn a map y Gorchymyn yn swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, Neuadd y Dref, Wreccsam a Swyddfa'r Post, 26 Stryd yr Alban, Ellesmere a gellir eu gweld am ddim rhwng 9.00am a 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellir cael copi o'r Gorchymyn a'r map am ddim yn Neuadd y Dref, Wreccsam.

Os yw unrhyw unigolyn wedi ei dramgwyddo gan y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd fel y diwygiwyd neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyn dan y Ddeddf neu unrhyw reoliad arall a wnaed ganddi yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 2 o'r Ddeddf a gymhwysir gan baragraff 5 o'r Ddeddf, gall ef neu hi ymgeisio i'r Uchel Lys i'r pwrpas hwn, o fewn chwe wythnos i 30/4/15.

## **ATODLEN**

### **RHAN 1 DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU'R Ffordd BRESENNOL**

Lled gyfan y rhan hwnnw o lwybr troed cyhoeddus rhif 10 yng Nghymuned De Maelor a ddangosir gan linellau trwm parhaus o'r gyffordd â ffin y sir ym mhwynt A (SJ 4556 3668) ar Fap y gorchymyn ac yna'n parhau'n gyffredinol tua'r gorllewin-gogledd-gorllewin am oddeutu 205 metr i gyfarfod â'r A495 Ellesmere i Ffordd Whitchurch ym mhwynt B (SJ 4537 3674) ac yna'n parhau o'r A495 Ellesmere i Ffordd Whitchurch ym mhwynt C (SJ 4534 3674) tua'r gogledd-orllewin yn gyffredinol am oddeutu 455 metr heibio Little Hall i gyfarfod â'r gyffordd gyda rhan arall o lwybr troed rhif 10 ym mhwynt D (SJ 4500 3704).

Dyddiedig 30/4/15

---

Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid